
Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C

14 Ebrill 2016, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 397

Presennol:

Huw Jones	(Cadeirydd)
Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Awdurdod)
Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)

Staff S4C:

Ian Jones	(Prif Weithredwr)
Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymwneud)
Carys Evans	(Pennaeth Dadansoddi) – (item 6)
Huw Jones (Ymchwil)	(Uwch Swyddog Ystadegol) – (item 6)
Hannah Evans	(Swyddog Dadansoddi) – (item 6)
Catrin Davies	Cwmni Beaufort – (item 6)
Owen Knight	Cwmni Beaufort – (item 6)
Fiona McAllister	Cwmni Beaufort – (item 6)
Huw Marshall	(Pennaeth Datblygu Digidol) – (item 22)
Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

Ymddiheuriadau:

Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)
------------	----------------------

1. Croeso a Datganiadau Diddordeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli a gynhaliwyd ar 13 Ebrill.**2.1** Nododd y Cadeirydd ei fod am dderbyn adroddiad o'r Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli a gynhaliwyd neithiwr oherwydd bod BBC Cymru yn bwriadu cyhoeddi datganiad i'w staff yn ymwneud a chynlluniau technegol y ganolfan ddarlledu arfaethedig amser cinio.

Cyflwynodd JD ac EM adroddiad llafar o'r cyfarfod gan gynnwys argymhelliad y Pwyllgor i'r Awdurdod.

[Crynodeb: Cyflwynwyd cefndir y cynllun i gydleoli gwasanaethau technegol S4C gyda BBC Cymru o fewn eu hadeilad presennol yn Llandaf o 2018 nes y byddai'r adeilad newydd yn barod. Roedd swyddogion y BBC ac S4C wedi gwneud gwaith dichonolrwydd ar y prosiect o ran arbedion ariannol, costau

technegol a'r risgiau o ran symud ochr yn ochr ag asesiad o aros yn Llanisien. Esboniwyd fod swyddogion S4C a'r BBC wedi dod i'r casgliad na fyddai'n addas i S4C symud i Landaf ar gyfer y cyfnod interim oherwydd y costau a'r risgiau. Felly roedd swyddogion S4C wedi cyflwyno argymhelliad i'r Pwyllgor i beidio cydleoli gyda'r BBC yn Llandaf. Yn dilyn ystyriaeth penderfynodd y Pwyllgor i gyflwyno'r argymhelliad i'r Awdurdod.]

Cymeradwywyd yr argymhelliad i beidio mabwysiadu'r cynllun interim o gydleoli gwasanaethau technegol S4C gyda'r BBC yn Llandaf, ac felly i aros hyd nes bydd y ganolfan newydd yng nghanol y dref yn barod.

Penderfynwyd y byddai swyddogion yn cyfleu'r neges i staff S4C heddiw i gyd-fynd gyda datganiad tebyg gan y BBC amser cinio.

2.2 [Crynodeb: Esboniodd JD fod y Pwyllgor hefyd wedi ystyried goblygiadau'r cynlluniau adleoli a chydleoli yng nghyd-destun ehangach y cynllun adleoli i Gaerfyrddin. Penderfynwyd cyflwyno diweddariad o'r Cynllun Busnes Adleoli i'r Pwyllgor Craffu a'r Awdurdod.]

[Crynodeb: Trafodwyd y gwaith dichonolrwydd yn ymwneud a chais caniatâd cynllunio arfaethedig ar gyfer ystâd S4C yn Llanisien a'r angen i swyddogion sicrhau bod y cais yn cael ei drafod ymlaen llaw gyda'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth am sefyllfa bresennol grantiau cyfalaf Ewropeaidd, penderfynwyd y dylai HJ ac IHJ drafod sefyllfa ceisiadau'r grantiau cyfalaf gydag uwch swyddogion PDDS.]

Cyfeiriwyd at y cynlluniau ar gyfer cynnal gweithgareddau diwylliannol cyhoeddus yng Nghanolfan yr Egin a nodwyd fod swyddogion yn trafod cynlluniau a chostau gweithgareddau o fewn yr Egin gyda PDDS. Nodwyd mai cyfrifoldeb PDDS fydd trefnu ac ariannu digwyddiadau o fewn yr Egin ac nad oes cyfrifoldeb ar S4C o fewn y trefniant cytundebol i ariannu unrhyw weithgareddau.

3. Cofnodion a Materion yn Codi

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 396 (a gynhaliwyd ar 10.03.16).

Cymeradwywyd y cofnodion gan ymgorffori'r newid uchod.

4. Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau diweddaraf a nodwyd y manylion canlynol.

Pyrth Pobl Ifanc a Dysgwyr

Nodwyd y bydd gwybodaeth bellach parthed cynllun arfaethedig y Porth ar gyfer Pobl Ifanc yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin, gyda gwybodaeth bellach am y Porth Dysgwyr i'w gyflwyno ym mis Hydref.

Maes B

Cyfeiriwyd at drafodaethau diweddar yn ymwneud â darlledu elfen o ddarpariaeth Maes B eleni a nododd DRh ei fod wedi cynnal trafodaethau gyda swyddogion yr Eisteddfod, BBC Cymru ac Antena. Nododd nad oedd yn

debygol y byddai BBC Cymru yn gallu cynnig darpariaeth o Maes B eleni, ond bod trafodaethau yn parhau gydag Antena sydd eisoes wedi eu cytundebu i ddarparu elfen o weithgareddau Maes B.

Pwyllgor Cynnwys

Cadarnhaodd IHJ y bydd modd adrodd yn ôl ar ddulliau a chost cynhyrchu data am amrywiaeth o fewn rhaglenni unigol ym mis Hydref ac yna bydd modd ystyried ymhellach opsiynau ar gyfer monitro amrywiaeth.

Cytundebau Rhag-archebu

Nodwyd mai'r dyddiad cywir ar gyfer adrodd yn ôl ar y cynllun Rhag-archebu yw diwedd 2016 yn hytrach na 2017 fel y nodwyd yn y gofrestr.

Polisi Ffilm

Cadarnhawyd y bydd DRh yn adrodd yn ôl ar faterion yn ymwneud â Pholisi Ffilm i gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys naill ai ym mis Mai neu fis Mehefin.

Penderfynwyd y dylid mireinio ymhellach y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau .

5. Materion yn Codi o'r Cofnodion

Ymgyrch Is-deitlo Saesneg Agored

[Crynodeb: Eglurwyd mai prif fwriad yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth o argaeledd is-deitlau Saesneg yn enwedig mewn cymunedau gwylwyr craidd. Cafwyd sylw mewn papurau newydd nad ydynt fel arfer yn cynnwys deunydd S4C, gan roi'r cyfle i bwysleisio fod gwasanaethau S4C yn gynhwysol ac yn agored i bawb. Roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi codi cwestiwn parthed nifer y rhaglenni. Mae'r swyddogion yn dal i ystyried y mater ymhellach ond hwyrach y byddai wedi bod yn fuddiol i fraenaru'r tir cyn yr ymgyrch. Roedd yr Aelodau'n awyddus i geisio deall beth yw gwaddol yr ymgyrch.]

Penderfynwyd y byddai'r swyddogion yn ystyried ymhellach y polisi is-deitlo presennol (Cymraeg a Saesneg) gan edrych hefyd ar y modd o farchnata ymgyrchoedd, a gweld pa fath o ymgyrch allai gael effaith hir dymor ar ddefnydd y gwasanaeth.

Penderfynwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Medi.

[Crynodeb: Trafodwyd y pryder am y defnydd o Saesneg mewn rhaglenni yn gyffredinol. Roedd IHJ o'r farn nad oedd gormodedd o Saesneg ond roedd angen cadw golwg ar y sefyllfa yn gyson. Roedd hefyd angen i fod yn ofalus wrth amserlenni rhaglenni.]

6. Cyflwyniad Tracio Delwedd Cwmni Beaufort

Croesawyd cynrychiolwyr cwmni Beaufort Research i'r cyfarfod a chafwyd cyflwyniad i'w hadroddiad.

- 6.1 Esboniwyd mai dyma'r tro cyntaf i Beaufort gynnal Arolwg Tracio Delwedd S4C sy'n arolwg hir dymor sydd wedi ei gynnal bob blwyddyn am dros ugain mlynedd.

Roedd y gwaith maes wedi ei gynnal rhwng Tachwedd 2015 a Chwefror 2016. Nodwyd fod hyn yn wahanol i arolygon y blynyddoedd diweddar pryd roedd gwaith maes wedi ei gynnal yn gyfan gwbl ym mis Tachwedd.

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at brif benawdau'r ymchwil, gan gynnwys y canlynol:

1. S4C sydd fwyaf tebygol o gael ei argymell o'r holl sianeli ymysg gwylwyr Cymraeg, gyda saith o bob deg yn ei roi yn eu pum sianel uchaf. Mae tua hanner y cynulleidfaoedd eraill yn rhoi S4C yn eu 10 uchaf;
2. Gwelliant sylweddol yng nghanfyddiad rhaglenni S4C ers y llynedd – symudiadau cadarnhaol ar draws y rhan fwyaf o genres gan wylwyr sy'n siarad Cymraeg a gwylwyr achlysurol / ddim yn gwyllo;
3. Gwylwyr yn teimlo cysylltiad cynyddol gydag S4C, ond dim cynnydd o ran perthnasedd y gwasanaeth i fywydau pob dydd rheini a holwyd
4. Lleihad yng nghanfyddiad modernedd yn parhau ar gyfer cynnwys S4C a delwedd y brand;
5. Adferiad o ran barn ymysg gwylwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru – gwelliannau sylweddol mewn canfyddiad rhaglenni yn ogystal â nodweddion delwedd brand, gyda hyn yn dilyn dirywiad yn y rhanbarth dros y blynyddoedd diwethaf.

Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau neu gwestiynau gan yr Aelodau.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am bwyntiau'n codi o'r cyflwyniad, gan gynnwys pwysigrwydd tracio ymatebion dros nifer o flynyddoedd er mwyn cael darlun cyflawn o ymateb y gynulleidfa, ystyried newidiadau rhanbarthol o ran yr ymateb i'r gwasanaeth, a chymharu canfyddiadau'r cyflwyniad gyda ffynonellau ymchwil eraill megis ffigyrau gwyllo.]

Nodwyd y bydd y Bwrdd Strategol yn ystyried ymhellach ganfyddiadau'r Adroddiad Tracio Delwedd.

7. **Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys, gan gynnwys Cymeradwyo Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2016-17** (a gynhaliwyd ar 14.03.16)

Cyflwynodd MWJ gofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys, ac amlinellodd yr hyn drafodwyd yn ystod y cyfarfod.

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor am y ddarpariaeth ddrama gan y Comisiynydd Drama, Gwawr Martha Lloyd. Nodwyd fod ymgais fwriadol i gynyddu'r nifer o ddramâu a ddangosir yn ystod y flwyddyn a chafwyd trafodaeth am y polisi, ac ystyriwyd a oedd wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Cafwyd trafodaeth am berfformiad y ddarpariaeth a'r heriau sy'n wynebu S4C o ran gallu cynnig arlwy drama safonol drwy'r flwyddyn.]

- 8 **Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2016-17**

Cyflwynodd MWJ Gynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2016-17 a nodwyd fod y Pwyllgor wedi ystyried y cynllun ac yn argymhell i'r Awdurdod ei gymeradwyo.

Cymeradwyodd yr Awdurdod Gynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2016-17 a phenderfynwyd y bydd cymeradwyaeth yr Awdurdod yn cael ei gyfleu i Ymddiriedolaeth y BBC mewn llythyr yn cynnwys asesiad o berfformiad rhaglenni'r BBC yn 2015-16 sydd i'w drafod gan y Pwyllgor Cynnwys yn ei gyfarfod nesaf.

9. **Rhaglenni'r Mis Aeth Heibio**

Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio, a chyfeiriwyd at nifer o gyfresi a rhaglenni gan gynnwys y ddarpariaeth comedi ac adloniant a ffeithiol.]

10. **Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 4 2015-16**

Cyflwynwyd adroddiad Cynnwys a Dadansoddi ar gyfer Chwarter 4 2015-16. Eglurwyd fod yr adroddiad yn seiliedig ar 52 wythnos o ddata, ac y byddai angen ychwanegu wythnos 53 ac effaith perfformiad cyfansawdd dros y cyfnod.

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at benawdau'r adroddiad, gan gynnwys cynnydd o ran sesiynau gwyllo arlein a chynnydd o ran cyrhaeddiad ar draws y DU. Nodwyd hefyd fod cyrhaeddiad ymysg Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi disgyn, bod hyn yn debyg i berfformiad sianelau PSB eraill yng Nghymru a bod swyddogion yn monitro'r patrwm yn rheolaidd.]

Cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng cynnal oriau, cynnal safon a chost yr awr cynyrchiadau drama, a holwyd a oes perygl y byddai unrhyw ymgais bellach i ganfod arbedion yng nghost yr awr rhai mathau o ddrama yn gallu effeithio safon ac apêl yr arlwy. Esboniodd DRh ei fod yn ymwybodol iawn o'r angen i fonitro hyn ac i sicrhau fod yr arlwy'n parhau i fod o safon uchel, ac sy'n apelio i'r gynulleidfa. Nododd y gallai weld dadleuon yn y dyfodol dros gynyddu cost yr awr ar gyfer rhai cynyrchiadau pe byddai'n gweld y gallai arbedion pellach effeithio ar safon cyfresi.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth bellach am elfennau o'r arlwy, gan gynnwys canmoliaeth i arlwy'r Chwe Gwlad eleni.]

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am berfformiad yr amserlen ac a oedd angen ystyried sut i gynyddu cyrhaeddiad ac apêl yr arlwy.]

Nododd DRh ei fod yn bwriadu cyflwyno asesiad o berfformiad y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ym mis Gorffennaf pan fydd yn asesu perfformiad y Strategaeth Gynnwys.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am sut mae elfennau o'r ddarpariaeth yn cyfrannu at berfformiad y gwasanaeth, ac opsiynau ar gyfer asesu hyn.]

Awgrymwyd y gellid ystyried sut i ddatblygu gwaith y Pwyllgor Cynnwys er mwyn asesu perfformiad yr arlwy gyfan mewn rhagor o fanylder gan ddefnyddio data megis targedau perfformiad rhaglenni. Wrth asesu rhaglen waith gyfredol y Pwyllgor Cynnwys yng nghyd-destun asesiad effeithlonrwydd yr Awdurdod, nodwyd y byddai angen sicrhau na fyddai'r Pwyllgor a'r Awdurdod yn dyblygu gwaith ei gilydd.

Penderfynwyd edrych eto ar y posibilrwydd o ofyn i'r Pwyllgor Cynnwys asesu perfformiad yr arlwy yn ei chyfanrwydd.

Penderfynwyd nodi enwau'r cwmnïau cynhyrchu yn yr Adroddiad Cynnwys.

11. **Adroddiad Blynyddol 2015–16 – papur trafod**

Cyflwynodd PW ddrafft o bapur trafod ar gyfer paratoi naratif ar berfformiad y gwasanaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, a nododd mai hwn fydd yr adroddiad olaf cyn Adolygiad 2017. O ganlyniad y bwriad yw cyflwyno ceisio naratif cynhwysfawr a chadarnhaol sy'n asesu perfformiad y flwyddyn ond sydd hefyd yn cynnig elfen o gyd-destun ehangach

Nododd fod bwriad i geisio cyflwyno asesiad o batrymau gwyllo cyfansawdd eleni er mwyn ceisio esbonio'r newidiadau sy'n digwydd ac sy'n effeithio ar ffigyrau gwyllo teledu ac sydd ddim yn cael eu mesur gan BARB. Roedd yn bosibl fod newidiadau patrymau gwyllo yn effeithio'n fwy ar wasanaeth megis S4C na'r prif sianelau PSB, ac os felly dylid ceisio esbonio hynny.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am flaenoriaethau naratif yr Adroddiad Blynyddol.]

Bydd adroddiad cynnydd parthed yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Mai.

12. **Adroddiad y Cadeirydd**

[Crynodeb: Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd at nifer o gyfarfodydd yr oedd wedi eu cynnal yn ystod y mis, gan gynnwys cyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, John Whittingdale AS.

[Crynodeb: Nododd IHJ ei fod wedi cynnal sgysiau gyda nifer o wleidyddion yn ystod y mis.]

13. **Asesiad Effeithlonrwydd yr Awdurdod**

Cyflwynodd y Cadeirydd bapur yn deillio o drafodaethau roedd wedi'u cynnal gydag aelodau'r Awdurdod ac uwch swyddogion er mwyn adolygu effeithlonrwydd yr Awdurdod a'i bwyllgorau. Roedd yr adroddiad yn nodi nifer o feysydd y byddai'n fuddiol eu trafod a nifer o welliannau y gellid eu mabwysiadu.

[Crynodeb: Cyfeiriodd hefyd at adroddiad yr archwilwyr mewnol, PWC, ar Lywodraethiant a Chynllunio Strategol S4C a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio'r bore hwnnw.

[Crynodeb: Cyflwynodd HHE grynoded o'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor, gan gynnwys materion yn ymwneud â sicrhau cyfleoedd i'r Awdurdod drafod materion strategol a sicrhau dealltwriaeth glir o'r cyfrifoldebau perthnasol; cynnal diwrnod i ffwrdd arall i ddechrau'r broses yma cyn yr haf; yr angen i ystyried y materion hyn i gyd yng nghyd-destun Adolygiad 2017. Nodwyd hefyd yr angen i ystyried cynnwys a fformat adroddiadau ac ystyried sut i asesu llwyddiant y gwasanaeth.]

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gadw'r sylwadau a'r argymhellion hyn mewn cof wrth fynd ymlaen i drafod y papur.

Pwyllgorau a Strategaeth

[**Crynodeb:** Roedd cytundeb fod angen dealltwriaeth glir o'r berthynas rhwng gwaith y pwyllgorau a gwaith yr Awdurdod. Trafodwyd yn benodol waith y Pwyllgor Cynnwys. Yn gyffredinol, roedd teimlad y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Cynnwys edrych yn fanylach ar y data amrywiol sy'n ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth a chyflwyno ei gasgliadau i'r Awdurdod. Cafwyd trafodaeth am sut i sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu wrth i'r Awdurdod dderbyn adroddiadau pwyllgorau, a chyfeiriwyd at enghreifftiau lle roedd y drefn yn ymddangos yn effeithiol.]

Mewn egwyddor, nid oedd Pwyllgorau'n gwneud penderfyniadau. Yn hytrach roeddent yn edrych ar faterion penodol mewn mwy o fanylder nag oedd amserlen yr Awdurdod ei hun un caniatáu, ac yn gwneud argymhellion i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod llawn. Roedd angen felly caniatáu o leiaf y posibilrwydd o drafodaeth bellach yng nghyfarfod yr Awdurdod, ac o ganlyniad nid oedd yn bosibl osgoi'n llwyr y posibilrwydd o ddyblygu trafodaeth.

Nodwyd fod pob aelod yn derbyn copi o bapurau pob pwyllgor a phapurau'r Awdurdod ymlaen llaw a nododd y Cadeirydd y byddai'n gallu bod yn fuddiol i aelodau godi unrhyw fater penodol neu ddatleuol gydag ef ymlaen llaw, fel bod ganddo gyfle i asesu faint o drafod fyddai angen darparu ar ei gyfer. Cytunwyd fod hyn yn drefn arferol mewn llawer o gyrff.

Trafodwyd sut y gellid bod yn gliriach ynglŷn â'r cyfeiriad strategol oedd yn cael ei osod neu ei gymeradwyo gan yr Awdurdod. Roedd cytundeb y dylai'r amcanion gweithredol a'r Strategaeth Cynnwys ddeillio o'r cyfeiriad strategol cyffredinol ac y dylai bod modd amlwg i'r Awdurdod a'r pwyllgorau perthnasol fedru adolygu cynnydd gan ddefnyddio mesuryddion perfformiad lle'n berthnasol. Roedd sicrhau gweledigaeth glir, oedd yn cael ei rhannu gan bawb, yn angenrheidiol cyn bod yr Adolygiad yn digwydd. Cytunwyd y dylid ceisio clustnodi amser ym mis Mehefin ar gyfer trafodaeth strategol o natur 'diwrnod i ffwrdd'.

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am ddarpariaethau'r Rheolau Sefydlog a'r esboniad am gyfrifoldebau strategol a gweithredol. Cytunwyd y dylid ail edrych ar y ddogfen fel rhan o'r broses o ystyried rôl yr aelodau ac i weld os yw'n cyflawni'r hyn sydd ei angen, neu os oes angen ei ddiweddarau eto. Penderfynwyd ail-gyflwyno'r Rheolau Sefydlog i sylw'r Pwyllgor Archwilio gydag argymhellion.]

Cafwyd trafodaeth am arbenigedd aelodau a sut y gellid manteisio i'r eithaf ar hynny. Awgrymwyd mai'r elfen bwysig oedd sicrhau aelodaeth briodol i'r gwahanol bwyllgorau. Nid oedd unrhyw awydd i gynyddu nifer y pwyllgorau ond roedd teimlad cyffredinol y dylai naw cyfarfod arferol o'r Awdurdod yn ystod blwyddyn fod yn ddigonol, ynghyd â dau ddiwrnod i ffwrdd, gydag un o'r rhain yn canolbwyntio ar adolygu perfformiad a chyflawniad strategaeth a'r llall yn adolygu blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

[Crynodeb: Penderfynwyd trefnu diwrnod i ffwrdd ym mis Mehefin er mwyn rhoi cyfle i drafod strategaeth a naratif S4C ar gyfer y cyfnod paratoi ar gyfer Adolygiad 2017, ac ystyried goblygiadau gweithredu'r awgrymiadau eraill ar batrwm gwaith yr Awdurdod.]

Cyfleoedd i gyfarfod yn anffurfiol

Cafwyd trafodaeth am y posibilrwydd o drefnu cyfarfodydd anffurfiol er mwyn i aelodau ac uwch reolwyr ddod i adnabod ei gilydd yn well a thrafodwyd hefyd y dadleuon o blaid ac yn erbyn creu amser ar gyfer sesiynau ar gyfer aelodau'n unig, neu gyda'r Prif Weithredwr yn bresennol.

Penderfynwyd y byddai'r aelodau yn cyfarfod heb bresenoldeb swyddogion am hanner awr cyn cyfarfodydd ffurfiol yr Awdurdod i drafod yr agenda a'r prif bynciau y byddai aelodau yn dymuno ffocysu'r drafodaeth arnynt.

Penderfynwyd ymhellach y byddai yna ddau gyfarfod anffurfiol dros swper bob blwyddyn ar noson cyn cyfarfodydd yr Awdurdod. Byddai'r Prif Weithredwr a'r Swyddogion yn cael gwahoddiad i'r cyfarfodydd yma, oni bai fod yr aelodau'n barnu fod angen cyfarfod achlysurol ar gyfer aelodau'n unig.

Maint a diwyg adroddiadau

[Crynodeb: Roedd teimlad fod yr adroddiadau y mae'r Awdurdod yn eu derbyn yn gallu bod yn swmpus iawn ac y byddai'n fuddiol pe bai modd rhoi mwy o bwyslais ar ddadansoddiad cryno o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau strategol a'r amcanion gweithredol. Awgrymwyd anelu at fformat safonol ar gyfer papurau fyddai'n cael eu cyflwyno . Er hynny, nodwyd nad adroddiadau at bwrpas yr Awdurdod yn unig oedd llawer o'r data oedd yn cael ei ddarparu, ond yn hytrach rai oedd yn rhan ganolog i waith swyddogion.]

Penderfynwyd gwneud templed gyda'r bwriad iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer pob adroddiad. Byddai'n gosod allan y pwnc dan sylw, yr hyn roedd angen i'r Awdurdod ei wneud gyda'r papur, beth yw'r argymhelliad a gyflwynir (os oes un) a'r asesiad o beth fyddai impact gweithredu argymhellion y papur.

Penderfynwyd edrych eto ar batrwm gwaith yr Awdurdod a'i bwyllgorau i weld a oedd modd symleiddio neu resymegoli'r gwaith papur, y pwyllgorau a'r Awdurdod ei hun.

14. **Capasiti gweinyddiaeth yr Awdurdod**

Nodwyd y pwysau gwaith oedd yn codi ar hyn o bryd pan roedd cyfarfod yr Awdurdod yn cyd-daro gyda nifer o bwyllgorau ac i ba raddau roedd hyn yn creu pwysau difrifol ar ysgrifenyddiaeth yr Awdurdod. Nodwyd hefyd y pwysau gwaith mawr roedd y swyddogion hyn yn eu hwynebu yn wyneb ceisiadau FOI, llawer ohonynt yn ymwneud â materion masnachol. Awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol ystyried chwilio am gymorth ychwanegol ar gyfer rhai pwyllgorau.

15. **System ddi-bapur**

Nodwyd nad yw system Huddle yn ateb gofynion yr Awdurdod ond roedd sawl aelod yn gofyn beth oedd o'i le ar ddefnyddio dogfennau PDF yn unig – er mwyn torri i lawr ar y pwysau gwaith ychwanegol sy'n cael ei osod ar y weinyddiaeth wrth orfod creu adroddiadau ar bapur.

Penderfynwyd ymchwilio ymhellach i weithredu system ddi-bapur o fewn system Microsoft, gan greu dogfennau PDF lle bydd modd

ychwanegu nodiadau neu addasiadau yn rhwydd. Penderfynwyd treialu'r system am dri mis, gyda'r bwriad o fynd yn hollol ddi-bapur wedi hynny.

Cofrestr penderfyniadau

Cytunwyd fod y gofrestr penderfyniadau yn gweithio'n dda.

16. **Natur y cofnodion**

Roedd adroddiad PWC yn awgrymu nad oes digon o dystiolaeth yn y cofnodion o herio'r swyddogion. Yn hytrach na mynd i'r cyfeiriad o gofnodi sylwadau gan aelodau unigol er mwyn cyflawni hyn, awgrymwyd y gallai fod yn bosibl cyfleu yn gliriach fod dwy farn wahanol wedi cael eu mynegi a bod trafodaeth o'r math wedi digwydd.

Roedd cytundeb fod angen bod yn glir ynglŷn â phryd a beth sydd yn cael ei benderfynu yng nghyfarfodydd yr Awdurdod ond roedd hefyd angen cydnabod bod gan yr Awdurdod swyddogaeth o gyflwyno sylwadau i'w cymryd i ystyriaeth nad oeddent o angenrheidrwydd yn benderfyniadau gan yr Awdurdod cyfan.

17. **Penodi un aelod yn brif aelod anweithredol**

Nododd y Cadeirydd yr arweiniad a dderbyniwyd gan y DCMS ar i gyrff cyhoeddus benodi prif aelod anweithredol.

Roedd yn awgrymu enw John Davies i gyflawni'r swyddogaeth yma o fewn yr Awdurdod. Roedd JD yn hapus i dderbyn y gwaith ond gofynnodd am swydd ddisgrifiad llawn.

Penderfynwyd penodi JD fel prif aelod anweithredol. Penderfynwyd y byddai PW yn paratoi dogfen yn nodi'r swydd ddisgrifiad llawn.

18. **Gwerthusiad y Prif Weithredwr**

Nododd HJ y byddai HHE yn ei gynorthwyo gyda gwerthusiad IHJ yn y rownd bresennol.

19. **Trafod gweithdrefnau a phrosesau S4C**

[**Crynodeb:** Yn gyffredinol, roedd teimlad fod gan yr Awdurdod swyddogaeth o sicrhau goruchwyliaeth briodol o bolisiâu a phrosesau S4C, heb i hynny olygu ymyrraeth weinyddol. Cafwyd trafodaeth am sut i sicrhau fod yr Awdurdod yn ymwybodol o farn staff S4C, a nodwyd fod pwnc hwn eisoes yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Personél.]

20. **Ymateb i Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol PWC**

Nodwyd nad oedd 'management comments' wedi eu cyflwyno i PWC hyd yma er mwyn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor a'r Awdurdod lunio barn cyn cyflwyno sylwadau.

Penderfynwyd y byddai HHE a PW yn cyflwyno sylwadau i PWC yn unol â thrafodaeth y Pwyllgor a'r Awdurdod ochr yn ochr â'r cofnod hwn.

Camau nesaf

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu sylwadau. Roedd nifer dda o benderfyniadau wedi cael eu gwneud byddai'n gwella effeithlonrwydd gweithredol yr Awdurdod a byddai pwyntiau eraill a godwyd yn cael ystyriaeth bellach pan fyddai'r adrodd yn ôl yn digwydd.

21. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Cynllun Gweithredu Amrywiaeth 2016-2020 ac Ymrwymiad S4C i Amrywiaeth

Nododd IHJ fod Cynllun Gweithredu Amrywiaeth ar gyfer 2016-2020 a diweddariad Ymrwymiad S4C i Amrywiaeth wedi eu cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth gynhaliwyd ar fore'r 14eg o Ebrill. Esboniwyd fod gofyn statudol ar S4C i gymeradwyo Cynllun Gweithredu Amrywiaeth ar gyfer gweithgareddau S4C ac Ymrwymiad i Amrywiaeth. Nododd fod y Pwyllgor wedi penderfynu argymhell i'r Awdurdod i gymeradwyo'r Ymrwymiad a'r Cynllun Gweithredu.

Cymeradwyodd yr Awdurdod yr Ymrwymiad i Amrywiaeth a Chynllun Gweithredu Amrywiaeth 2016-2020.

22. **Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol**

Cyflwynodd HM adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol ac asesiad o berfformiad y ddarpariaeth.

- Roedd ffigyrau gwyllo cynnwys S4C Arlein wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf, ond yn ddiweddar gwelwyd sefydlogrwydd yn y ffigyrau a gobeithir y bydd modd cynyddu defnydd o S4C Arlein eto yn y dyfodol.
- Mae gwefan newydd Cyw wedi profi'n boblogaidd gyda'r oedran 0-6 a'u rhieni.
- Mae cynnwys Cyw yn cael ei wyllo drwy ap S4C a llawer hefyd yn ei wyllo ar yr iPlayer.
- Mae sianel CywTiwb wedi ennill ei blwyf, gyda chynnydd sylweddol i'w weld flwyddyn ar flwyddyn o ran defnydd y gwasanaeth.
- Mae buddsoddiadau masnachol mewn gemau cyfrifiadurol yn galluogi S4C i ddarparu gemau cyfrifiadurol Cymraeg ar wefan S4C. Bydd Brwydr y Bwystfil yn ymddangos ar y wefan yn fuan.
- Lanswyd Sianel 'Pump' ar YouTube yn ddiweddar gyda'r bwriad i dargedu gwylwyr 16-35 oed gyda chynnwys cyfoes, ffurf fer, heb fod brand S4C yn amlwg ar y cynnwys. Mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol o fewn y gynulleidfa darged.
- Bydd Ap Chwaraeon yn lawnsio cyn Pencampwriaeth Ewro 2016.

Diolchwyd i HM am ei gyflwyniad a chafwyd trafodaeth am berfformiad y ddarpariaeth ddigidol.

Tra'n canmol y fenter, awgrymwyd hwyrach fod ffilmiau byrion Pump braidd yn hir i'w galw'n gynnwys ffurf fer. Esboniodd HM fod elfen o arbrofi a cheisio adborth wrth lansio'r gwasanaeth a'i fod yn cydnabod fod yr eitemau ychydig yn hir. Roedd bwriad i ail-becynnu'r cynnwys yn eitemau byrrach. Roedd yr ymateb hyd yma'n ffafriol iawn gyda mwyafrif o'r defnydd yn dod o facebook, gyda 62% o'r gynulleidfa o dan 35 oed.

Nodwyd fod darpariaeth Pump yn rhan o'r gwaith ymchwil ar gyfer y Porth Pobl Ifanc.

Wrth i'r safle ddatblygu, gobeithir y bydd modd galluogi'r defnyddwyr i greu fideos Cymraeg i'w cynnwys ar y safle.

Diolchwyd i HM am ei adroddiad, a nododd IHJ mai hwn fyddai cyflwyniad olaf HM gan ei fod wedi penderfynu gadael S4C ddiwedd yr haf. Diolchodd yr Awdurdod am ei gyfraniad i ddatblygu gwaith digidol S4C.

MATERION ERAILL

23. **Adroddiadau Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

24. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth er gwybodaeth.

[**Crynodeb:** Nodwyd fod Cwyn wedi ei gyflwyno i S4C yn ymwneud a thechnegau dysgu a ddefnyddiwyd o fewn un rhaglen ac roedd swyddogion wedi ateb y materion perthnasol.]

25. **Rhaglen Waith 2016/17 – Diweddariad**

Cyflwynwyd diweddariad o'r Rhaglen Waith ar gyfer gwaith yr Awdurdod yn 2016/17 er gwybodaeth.

26. **Unrhyw Fater Arall**

Cyfeiriwyd at gynllun *Generation Beth?* - cynllun sy'n cael ei ddatblygu gan yr Undeb Darlledu Ewropeaidd sy'n anelu i geisio deall mwy am arferion gwyllo a barn pobl ifanc ledled Ewrop am wasanaethau darlledu cyhoeddus. Mae'r cynllun eisoes wedi profi'n boblogaidd iawn mewn rhai gwledydd megis Ffrainc, a gobeithir y bydd diddordeb mawr yn y prosiect yng Nghymru, lle mae S4C yn arwain y prosiect.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 12 Mai, 2016